

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD YR A487 O HWLFFORDD I DYDDEWI)
(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2021**

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud Gorchymyn o dan Adran 84 a Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith y Gorchymyn fydd cyflwyno terfyn cyflymder clustogi o 40mya o'r gilfach barcio Loo Choo, ac i gynnwys pentref bach Slade, fel y nodir yn yr Atodlen i'r gorchymyn hwn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn ar-lein yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffic-ffyrdd>

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad drwy naill ai cwblhau'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig i'r islofnodedig erbyn yr 25ain diwrnod o Awst 2021. Dyfynnwch: A487SLADE-S/L

Dyddiedig y 4fed diwrnod hwn o Awst 2021.

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd

**Atodlen
Terfyn Cyflymder o 40mya**

Ffordd

A487

Hyd

O bwynt 465 metr i'r gogledd-orllewin o gylchfan Loo Choo i bwynt sy'n 150 metr i'r gogledd-orllewin dwyrain o'r gyffordd â Slade Lane.

Datganiad o'r Rheswm:

Mae'r cynigion yn cael eu hyrwyddo yn dilyn cynrychiolaeth/deiseb gan y gymuned leol yn dilyn nifer o wrthdrawiadau o'r cefn. Mae Slade yn ddatblygiad llinol ar Ogledd Orllewin Hwlfordd gyda nifer o eiddo yn wynebu'r A487.

Ystyriodd yr adolygiad hanes damweiniau, data arolygon cyflymder, geometreg y ffordd, a ffactorau eraill, gan gynnwys cyffyrdd, math o weithgarwch ar ei hyd, a'r grŵp defnyddwyr. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid lleihau'r terfyn presennol i 40mya er mwyn sicrhau y cynhelir dosbarthiad cyflymder diogel a chyson ar hyd y llwybr hwn.



Proposed introduction of a 40mph buffer limit - A487 St Davids Road, at Slade.

Map produced on: 04 August 2021

Scale (A3 Print)
1:2500



**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD YR A487 HWLFFORDD I DYDDEWI)
(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2021**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn gwneud, gan hynny, y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff unrhyw unigolyn yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y rhannau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
2. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffordd yr A487 Hwlffordd i Dyddewi) (Terfyn Cyflymder 40mya) 2021' a daw i rym ar y XX diwrnod o Orffennaf Dwy Fil ac Un ar Hugain.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y XX diwrnod hwn o Orffennaf, Dwy Fil ac Un ar Hugain.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO
ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig

Atodlen
Terfyn Cyflymder o 40mya

Ffordd
A487

Hyd

O bwynt 465 metr i'r gogledd-orllewin o gylchfan Loo Choo i bwynt sy'n 160 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Slade Lane.